# Uned 6: Rheoli Busnes yn y Sector Tir

**Côd yr Uned:** M/600/9709

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Bydd y dysgwyr yn edrych ar yr amgylchedd busnes, rolau a chyfrifoldebau’r rhai sy'n gyflogedig gan fusnesau tir a gofynion adnoddau. Byddant yn datblygu eu sgiliau gweithrediadau busnes ac yn cynhyrchu cynllun busnes.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae gweithrediad llwyddiannus yr holl ddiwydiannau tir yn dibynnu ar wybodaeth ymarferol staff am yr amgylchedd busnes a'r farchnadle, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau mewn modd proffesiynol a chyfrifol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer nifer fawr o fentrau bach a chanolig eu maint sy'n gweithredu yn y sector amgylcheddol a thir.

Bydd y dysgwyr yn darganfod yr amrediad o fusnesau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu nwyddau neu ddarparu gwasanaethau, a busnesau a sefydliadau atodol sy'n cefnogi'r diwydiant. Yna byddant yn archwilio sut mae ystod o adnoddau dynol a ffisegol yn angenrheidiol ar gyfer gweithrediad busnes llwyddiannus a sut gall eu rheoli arwain at berfformiad busnes gwell.

Bu angen i fusnesau yn y sectorau amgylcheddol a thir fod yn fwyfwy ymwybodol o ofynion y farchnad a'r farchnadle. Bydd y dysgwyr yn archwilio hyn, ynghyd â'r systemau sicrhau ansawdd sy'n galluogi bodloni'r gofynion hyn.

Mae cadw cofnodion yn swyddogaeth hanfodol wrth reoli a chadw trefn ar unrhyw fusnes, felly bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn cwblhau ystod o gofnodion ariannol a ffisegol sy'n ofynnol i fodloni gofynion cyfreithiol a rheoli gwybodaeth. Byddant hefyd yn archwilio sut defnyddir cofnodion i fonitro a rheoli perfformiad busnes.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Wybod beth yw maint a phwysigrwydd diwydiant yn y sector amgylcheddol a thir

2 Deall adnoddau a strwythurau busnes

3 Deall marchnadle busnes

4 Deall sut mae defnyddio systemau cadw cofnodion ariannol a ffisegol.

## Cynnwys yr uned

### 1 Gwybod beth yw maint a phwysigrwydd diwydiant yn y sector amgylcheddol a thir

*Ystod o sefydliadau:* mathau nodweddiadol o fusnesau a sefydliadau eraill yn y sector (ee busnesau masnachol, cynrychioliadol, rheoleiddiol, sefydliadau nid-er-elw); amrywiadau rhanbarthol

*Pwysigrwydd i'r economi, i'r amgylchedd ac i gymdeithas:* defnyddio'r mesurau sydd ar gael i'r diwydiant ee gwerth allbwn, cyfraniad i'r CMC (GDP), cyflogaeth, cyfranogiad, defnydd tir; pwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; buddion economaidd a chymdeithasol; tueddiadau o ran pwysigrwydd

*Diwydiannau cysylltiedig:* diwydiannau perthnasol yn y sectorau cynradd, eilaidd a thrydyddol (ee cyflenwyr deunyddiau crai, proseswyr, dosbarthwyr, manwerthwyr, darparwyr gwasanaeth)

*Sefydliadau cysylltiedig:* rhyngberthnasoedd penodol rhwng un busnes a sefydliadau cysylltiedig eraill – cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau, sefydliadau cynrychioladol a chyrff proffesiynol (ee Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Ceffylau Prydain), cyrff rheoleiddiol (ee Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, DEFRA, Awdurdod Lleol), cystadleuwyr, cwsmeriaid; nodau a rolau sefydliadau pwysig yn y sector

### 2 Deall adnoddau a strwythurau busnes

*Strwythur cyfreithiol a threfniadaeth:* nodweddion y prif fathau o fusnesau ee masnachwyr unigol, partneriaeth, cwmni cyfyngedig, sefydliad nid-er-elw, elusen, sefydliadau sector cyhoeddus; strwythur staffio sefydliad

*Gofynion o ran adnoddau ffisegol:* adeiladau; tir (maint, topograffi, math o bridd a draeniad); cerbydau a pheiriannau; offer a chyfarpar; stoc ee porthiant, gwellt, hadau, gwrtaith; da byw; rheoli adnoddau ffisegol ee cynnal a chadw ac atgyweirio, gweithdrefnau rheoli stoc, yswirio adnoddau ffisegol, cartrefi a phorthiant anifeiliaid, systemau gwaredu gwastraff

*Rolau a chyfrifoldebau'r swydd:* rolau swyddi sy'n berthnasol i'r sector ee cyfarwyddwr, rheolwr, goruchwyliwr, gweithiwr tîm, hyfforddai, gweinyddwr, gwirfoddolwr, is-gontractiwr; teitl y swydd, swydd ddisgrifiad, cyfrifoldebau am adnoddau ariannol, ffisegol a dynol; ysgogiad staff a rheoli perfformiad; manyleb swydd (y sgiliau nodweddiadol, y cymwysterau a'r profiad gofynnol i gyflawni'r rôl); hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yn y gwaith (ee tâl, oriau gwaith, gwyliau, cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch, diogelu cyflogaeth), deddfwriaeth cyflogaeth berthnasol ee Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, Rheoliadau Amser Gwaith 1998, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005

### 3 Deall marchnadle busnes

*Marchnadle, cwsmeriaid a chystadleuwyr:* maint y farchnad (ee gwerth gwerthiannau, nifer y cwsmeriaid); dylanwadau allanol ar y farchnad (gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol-ddiwylliannol, technolegol); sylfaen o gwsmeriaid (nifer, math, nodweddion, segmentau'r farchnad); cystadleuwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol, dadansoddiad o'r cystadleuwyr, cyfran o'r farchnad

*Cadwyn gyflenwi:* cyflenwyr, dosbarthwyr, proseswyr, cyfryngwyr, cwsmeriaid; dewis cyflenwyr, sicrhau cyflenwadau o fewnbynnau; sicrhau cadwyn gyflenwi (ee amgylcheddol, lles anifeiliaid)

*Rheoli ansawdd:* agweddau ansawdd pwysig yn y sector; safonau ansawdd ffurfiol neu gymeradwyaeth (ee Gwarant Fferm, ISO 9000, cymeradwyaeth BHS 150, 14000, 18000); systemau ac arferion i gyflawni ansawdd; problemau a gyfyd os na chyflawnir ansawdd

## 4 Deall sut mae defnyddio systemau cadw cofnodion ariannol a ffisegol

*Cofnodion ariannol:* pwysigrwydd cadw cofnodion cywir (gofynion cyfreithiol ac effeithlonrwydd rheoli); gweithdrefnau prynu ac archebu; ffurflenni archebu, trefniadau danfon, derbynebau; anfonebau a chofnodion gwerthiant, rheoli credyd; dulliau talu; cadw llyfrau (dadansoddi arian parod, arian mân, llif arian, rhaglenni cyfrifon cyfrifiadurol); cyfrifon sylfaenol (maint gros, cyfrif masnachu, mantolen, dibrisiant); trethiant (TAW, treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol, treth gorfforaethol); cyfrifo cyflogau

*Cofnodion ffisegol:* cofnodion priodol i'r diwydiant yn ymwneud ag ee cynhyrchedd, mewnbynnau, staffio, cwsmeriaid, defnydd o adnoddau; diogelu data; gofynion cyfreithiol i gadw cofnodion ee defnydd o blaleiddiad, meddyginiaeth filfeddygol, trafnidiaeth, symud anifeiliaid, pasbortau

*Monitro perfformiad a chynnydd busnes:* defnyddio cofnodion ariannol a ffisegol i fonitro perfformiad busnes ee cymariaethau maint gros, lefelau cynhyrchu, costau cynhyrchu, effeithlonrwydd ariannol; monitro yn erbyn targedau, cyllidebau, cyfnodau blaenorol; cyfnodau adolygu perthnasol (ee wythnosol, misol, blynyddol); gweithredoedd adferol priodol; rolau staff wrth gofnodi a dadansoddi gwybodaeth

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy’n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 disgrifio pwysigrwydd busnesau o fewn y diwydiant i'r economi [YA] | T1 trafod effaith sefydliadau eraill ar fusnes tir penodol | Rh1 trafod sut mae adnoddau, strwythurau busnes a pherthnasoedd gyda sefydliadau eraill yn effeithio ar lwyddiant busnes tir penodol |
| Ll2 amlinellu’r ystod o fusnesau cysylltiedig sy'n rhan o'r diwydiant [YA] | | |
| Ll3 egluro strwythur cyfreithiol a threfniadaeth busnes tir [YA] | T2 trafod sut mae rolau swyddi'n gysylltiedig â strwythur y busnes, y defnydd o adnoddau a pherfformiad mentergarwch busnes tir penodol | |
| Ll4 egluro gofynion busnes tir penodol o ran adnoddau ffisegol [YA] | | |
| Ll5 disgrifio rolau a chyfrifoldebau swyddi gwahanol busnes tir penodol [YA, HR] | | |

<table>
<tr><th colspan="3">Meini prawf asesu a graddio</th></tr>
<tr><th>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</th><th>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</th><th>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</th></tr>
<tr><td>Ll6 disgrifio'r farchnadle, y cwsmeriaid a'r cystadleuwyr ar gyfer busnes tir<br>[YA]</td><td rowspan="3">T3 trafod pwysigrwydd bodloni gofynion y farchnad ar gyfer busnes tir penodol</td><td rowspan="6">Rh2 dadansoddi cofnodion ffisegol ac ariannol i werthuso perfformiad busnes ac argymell gwelliannau.</td></tr>
<tr><td>Ll7 egluro nodweddion cadwyn gyflenwi effeithlon mewn cyd-destun tir<br>[YA]</td></tr>
<tr><td>Ll8 adolygu systemau ac arferion rheoli ansawdd busnes tir<br>[YA]</td></tr>
<tr><td>Ll9 adolygu cofnodion ariannol ar gyfer busnes tir penodol<br>[YA]</td><td rowspan="3">T4 trafod defnydd a diben cofnodion ffisegol ac ariannol, gan gynnwys sut gellid eu defnyddio i fonitro perfformiad a chynnydd busnes.</td></tr>
<tr><td>Ll10 archwilio cofnodion ffisegol ar gyfer busnes tir penodol</td></tr>
<tr><td>Ll11 archwilio'r defnydd o gofnodion ariannol a ffisegol wrth fonitro perfformiad a chynnydd busnes.<br>[DM, HR]</td></tr>
</table>

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

<table>
<tr><td>Allwedd</td><td>YA – ymholwyr annibynnol<br>MC – meddylwyr creadigol<br>DM – dysgwyr myfyriol<br>GT – gweithwyr tîm<br>HR – hunan-reolwyr<br>CE – cyfranogwyr effeithiol</td></tr>
</table>

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon dylid canolbwyntio ar sector arbenigol y dysgwr yn y sector amgylcheddol a thir. Byddai bod rhywfaint yn gyfarwydd â busnesau yn y sector o fantais i ddysgwyr er mwyn i'r uned fedru datblygu profiad o gyflogaeth flaenorol, profiad gwaith a gweithrediad uned ymarferol y ganolfan. Anogir canolfannau i drefnu sgyrsiau gan gyflogwyr a gweithwyr proffesiynol penodol o'r diwydiant. Byddai'r dysgwyr yn elwa hefyd o ymweliadau ag amrywiaeth o sefydliadau i ddyfnhau'r profiad dysgu.

Mae gan y tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r cwrs hwn gyfleoedd i ddefnyddio ystod eang o dechnegau. Byddai darlithoedd, trafodaethau, cyflwyniadau seminar, ymweliadau safle, ymchwil gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a/neu adnoddau'r llyfrgell a defnyddio profiad personol a/neu o fewn y diwydiant yn addas. Dylid monitro profiad gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei ansawdd.  Byddai'n ddefnyddiol pe bai dysgwyr a goruchwylwyr yn ymwybodol o ofynion yr uned hon cyn unrhyw weithgareddau yn y gwaith, fel bod modd casglu tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar y pryd.  Er enghraifft, bydd y dysgwyr o bosib yn cael cyfle i ddefnyddio systemau cadw cofnodion ariannol a/neu ffisegol, a dylid eu hannog i holi am gofnodion arsylwi a/neu ddatganiadau tystion i'w defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer hyn. Rhoddir arweiniad ar ddefnyddio cofnodion arsylwi a datganiadau tystion ar wefan Edexcel (www.edexcel.com).

Pa ddulliau cyflwyno bynnag a ddefnyddir, mae'n hanfodol bod y tiwtoriaid yn pwysleisio pwysigrwydd cywirdeb a'r angen am reoli adnodd gan ddefnyddio dulliau cyfreithlon. Dylai tiwtoriaid ystyried cyfuno'r cyflwyno, yr astudio preifat a'r asesu ar gyfer yr uned hon ag unedau ac offer asesu perthnasol eraill mae'r dysgwyr yn eu cymryd fel rhan o'u rhaglen astudio.

Ar gyfer deilliant dysgu 1, bydd y dysgwyr yn archwilio maint, cwmpas a phwysigrwydd eu sector arbenigol yn y diwydiannau amgylcheddol a thir, ac unrhyw dueddiadau o ran pwysigrwydd. Mae'r math hwn o wybodaeth ar gael yn fwy hwylus mewn rhai sectorau nag eraill (ee amaeth), felly dylid cefnogi'r dysgwyr i gael pa wybodaeth bynnag sydd ar gael sy'n berthnasol i'w sector. Byddant hefyd yn archwilio'r amrywiaeth o fathau o fusnesau a sefydliadau eraill a gynrychiolir yn eu sector, gan gynnwys sefydliadau rheoleiddio, proffesiynol neu gynrychioliadol pwysig. Lle bynnag y bo'n bosibl dylai hyn fod yn gysylltiedig â busnesau a sefydliadau penodol. Mae'r deilliant hwn yn debygol o alw am addysgu ffurfiol, a dylid ei gefnogi â gwybodaeth berthnasol am fusnesau a sefydliadau o fewn y sector, a gallai gynnwys siaradwyr i gynrychioli'r rhain. Dylid annog astudio ac archwilio annibynnol yn ogystal.

Ar gyfer deilliannau dysgu 2 a 3, mae'r cyflwyno'n debygol o gynnwys defnyddio amrywiaeth o astudiaethau achos, wedi'u cefnogi ag ymweliadau a siaradwyr gwadd. Disgwylir peth cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth i sefydlu egwyddorion a chysyniadau hefyd, a allai gynnwys seminarau, gweithdai a darlithoedd.

Mae deilliant dysgu 2 yn canolbwyntio ar oblygiadau cyfreithiol ac adnoddau ffurfio busnes. Bydd y dysgwyr yn archwilio'r ystod o sefydliadau busnes yn y sectorau preifat a chyhoeddus, a goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol gwahanol fathau o fusnesau. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â'r mathau o fusnesau sy'n bwysig yn eu sector. Bydd y dysgwyr yn archwilio gofynion busnesau o ran adnoddau ffisegol, a sut cânt eu rheoli. Byddai'n briodol i'r dysgwyr gyflawni astudiaeth achos ar safle busnes yn eu sector ac arfarnu ei gryfderau a'i wendidau at ddefnydd busnes penodol. Mae'r ddealltwriaeth y bydd y dysgwyr yn ei chael am rolau a chyfrifoldebau swyddi yn cysylltu â'r gofynion profiad gwaith, a gellid gwahodd cyflogwyr i egluro'u disgwyliadau yn y gweithle. Dylai ymchwiliadau'r dysgwyr ganolbwyntio ar rolau swyddi o fewn eu sector arbenigol.

Ar gyfer deilliant dysgu 3, bydd y dysgwyr yn dadansoddi'r farchnad ar gyfer busnes tir penodol. Mae hyn yn debygol o gynnwys prosiect astudiaeth achos a dylai nodi, ar gyfer y busnes hwnnw, wybodaeth a restrwyd yng nghynnwys yr uned. Dylai'r dylanwadau allanol fod yn berthnasol ac yn gyfredol i'r busnes hwnnw. Dylid nodi cystadleuwyr penodol a'u dadansoddi i amlygu cryfderau a gwendidau busnes yr astudiaeth achos. Wrth ymchwilio i'r gadwyn gyflenwi, mae angen i'r dysgwyr nodi'r llif adnoddau o gynhyrchu deunyddiau crai, trwy'r gweithgynhyrchu a'r prosesu perthnasol, hyd at y cwsmeriaid terfynol. Bydd rheoli ansawdd yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw safonau ffurfiol neu gymeradwyaeth sy'n berthnasol. Dylai hefyd ystyried y safonau ansawdd sy'n ofynnol gan y diwydiant, unrhyw systemau ac arferion a ddefnyddir i gyflawni ansawdd, a goblygiadau methu bodloni'r lefelau ansawdd rhagnodedig neu dybiedig. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â busnesau penodol a gellid cefnogi'r addysgu unwaith eto â siaradwyr gwadd perthnasol o'r diwydiant.

Mae deilliant dysgu 4 yn canolbwyntio ar amrediad y cofnodion ariannol a ffisegol sy'n ofynnol i fodloni gofynion cyfreithiol ynghyd â sicrhau gweithrediad busnes effeithiol. Mae angen i'r dysgwyr gwblhau enghreifftiau syml o'r amrediad o gofnodion ariannol a restrwyd. Dylent fod yn ymwybodol o systemau papur a chyfrifiadurol ar gyfer cofnodion ariannol, ond nid oes disgwyl iddynt allu defnyddio meddalwedd cyfrifon TG yn gymwys. Dylai'r amrediad o gofnodion ffisegol a archwiliwyd fod yn gysylltiedig ag anghenion sector arbenigol y dysgwr, a dylai gynnwys enghreifftiau cyfredol pwysig o gofnodion sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Gallai'r cynnwys hwn gysylltu ag unedau galwedigaethol arbenigol eraill. Gall y dysgwyr ennill profiad uniongyrchol o gynnal a chadw cofnodion a'u defnyddio yn uned ymarferol y ganolfan neu drwy brofiad gwaith. Ynghyd â chwblhau amrediad o gofnodion, bydd angen i'r dysgwyr ymchwilio i sut y gellir defnyddio enghreifftiau penodol i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau, monitro a rheoli perfformiad busnes.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad a throsolwg o'r uned |
| **Aseiniad 1: Sefydliadau a Busnesau mewn Diwydiant Tir** (Ll1, Ll2, T1)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiwn theori ac ymchwiliad gweithdy i'r amrywiaeth o sefydliadau sydd i'w cael yn y diwydiant tir, eu pwysigrwydd economaidd a chymdeithasol |
| Ymchwil gan y dysgwyr a chyflwyniad ar yr amrywiaeth o ddiwydiannau cysylltiedig, eu rolau a'u pwysigrwydd i'r diwydiant |
| Sesiwn theori ar sefydliadau eraill (statudol, proffesiynol, cynrychioliadol) a'u cysylltiadau â busnesau |
| Ymweliad ac ymchwiliad gweithdy i sut mae gan un busnes gysylltiadau ag amrywiaeth eang o sefydliadau eraill |
| Ymchwil gan y dysgwyr a chwblhau asesiad |

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
| --- |
| **Aseiniad 2: Strwythurau ac Adnoddau Busnes** (Ll3, Ll4, Ll5, T2, Rh1)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Trafodaeth dosbarth ar nodweddion y prif fathau o fusnes a strwythurau staffio sefydliad |
| Darlith ragarweiniol ar adnoddau ffisegol busnes ac yna archwiliad ymarferol ac awdit o adnoddau busnes astudiaeth achos |
| Darlith ragarweiniol ar rolau a chyfrifoldebau swyddi. Ymchwiliad gweithdy i rolau swyddi gwahanol yn y sector; paratoi disgrifiadau swydd a manylebau swydd |
| Ymweliad a gwaith astudiaeth achos: sut mae rolau swyddi'n gysylltiedig â pherfformiad busnes. |
| Ymchwil gan y dysgwyr a chwblhau asesiad |
| **Aseiniad 3: Y Farchnadle Fusnes** (Ll6, Ll7, Ll8, T3)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Darlith yn cyflwyno'r cysyniad o farchnad a dadansoddi'r farchnad |
| Ymchwil gweithdy i ddata'r farchnad a dadansoddi cystadleuwyr |
| Ymchwil gan y dysgwyr a thrafodaeth am ddylanwadau allanol ar y farchnad |
| Sesiwn theori am y gadwyn gyflenwi |
| Sesiwn siaradwr gwadd am reoli ansawdd gydag ymchwiliad gweithdy i safonau ansawdd neu gymeradwyaeth ffurfiol |
| Ymchwil gan y dysgwyr a chwblhau asesiad |
| **Aseiniad 4: Cadw Cofnodion Ariannol a Ffisegol** (Ll9, Ll10, Ll11, T4, Rh2)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiwn theori yn cyflwyno rôl a phwysigrwydd cofnodion busnes |
| Sesiynau gweithdy yn archwilio ac yn cwblhau amrywiaeth o gofnodion ffisegol |
| Ymchwil gan y dysgwyr a chwblhau asesiad |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Ar gyfer Ll1, disgwylir i'r dysgwyr ddisgrifio'r amrywiaeth o fusnesau a geir yn y diwydiant y maent wedi'i ddewis a dangos eu pwysigrwydd i'r economi leol, ranbarthol neu genedlaethol. Gallai'r dystiolaeth fod yn boster, yn ffeithlen neu'n adroddiad.

Ar gyfer Ll2, mae angen i'r dysgwyr amlinellu'r mathau o fusnesau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant a ddewiswyd. Dylai'r dystiolaeth ddarlunio'r amrywiaeth o sefydliadau a busnesau cysylltiedig sydd yn y diwydiant a ddewiswyd. Dylai ddangos yr amrediad o ryngberthnasoedd sydd gan un busnes a ddewiswyd â sefydliadau eraill, gan gynnwys cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau, sefydliadau cynrychioliadol a chyrff proffesiynol, cyrff rheoleiddio, cystadleuwyr a chwsmeriaid. Dylid egluro rolau a phwysigrwydd y perthnasoedd hyn i'r busnes. Gall y dystiolaeth fod ar yr un ffurf â'r hyn a gynhyrchwyd ar gyfer Ll1.

Gellid asesu Ll3, Ll4 a Ll5 trwy un darn o waith, lle byddai'r dysgwyr yn cynhyrchu proffil ar gyfer busnes a ddewiswyd yn y sector amgylcheddol a thir. Gallai'r busnes fod yn un masnachol, nid-er-elw neu'n sefydliad statudol. Gallai fod yr un busnes a ddefnyddiwyd ar gyfer Ll1 a Ll2. Gallai'r dysgwyr gyflwyno tystiolaeth am fusnes maent yn gwybod amdano, neu gall canolfannau drefnu ymweliad astudiaeth achos. Fel arall, gallai fod yn briodol seilio'r aseiniad hwn ar brofiad gwaith.

Ar gyfer Ll3, mae angen i'r dysgwyr gynnwys enw'r busnes, y cynnyrch neu'r gwasanaethau mae'n eu darparu, ei strwythur cyfreithiol a siart strwythurol y sefydliad. Gellid cyflwyno tystiolaeth mewn amrywiaeth o fformatau megis adroddiad ysgrifenedig neu gyflwyniad electronig.

Ar gyfer Ll4, mae angen i'r dysgwyr egluro gofynion adnoddau ffisegol busnes a ddewiswyd, a ddylai gynnwys y prif gategorïau adnoddau a ddangoswyd yng nghynnwys yr uned. Mae angen i'r dysgwyr egluro pam mae pob adnodd yn ofynnol ar gyfer y busnes, a dylent roi syniad o'r gofynion ansawdd (ee math o dir) ynghyd â'r maint (ee maint y tir). Gall y dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer Ll3, neu'n fap anodedig o'r busnes sy'n dangos ei ofynion o ran adnoddau.

Ar gyfer Ll5, mae angen i'r dysgwyr ddisgrifio rôl a chyfrifoldebau tair swydd wahanol yn y busnes. Gall y dystiolaeth fod yn adroddiad ysgrifenedig, yn gyflwyniad llafar neu'n siart strwythur anodedig.

Ar gyfer Ll6, mae angen i'r dysgwyr ddisgrifio'r farchnadle, y cwsmeriaid a'r cystadleuwyr ar gyfer busnes tir. Gallai fod yn fusnes sy'n weithredol ar hyn o bryd, yn ddeunydd astudiaeth achos, neu'n gynnig ar gyfer busnes newydd. Mae angen i'r dysgwyr adrodd gwybodaeth am faint y farchnad yn lleol neu'n genedlaethol, cynnwys o leiaf bedair enghraifft gyfredol o ffactorau allanol perthnasol sy'n dylanwadu ar y farchnad, sylfaen cwsmeriaid y busnes, a chystadleuwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol. Gall y dystiolaeth fod yn gyflwyniad, yn adroddiad ysgrifenedig neu'n e-bost at berchennog y busnes.

Ar gyfer Ll7, mae gofyn i'r dysgwyr egluro nodweddion cadwyn gyflenwi effeithlon mewn cyd-destun tir. Byddai hyn yn cael ei egluro orau gan ddefnyddio enghraifft busnes a ddewiswyd, a allai fod yr un a astudiwyd ar gyfer Ll6 neu Ll3. Gall y dystiolaeth fod yn adroddiad, yn boster neu'n gyflwyniad.

Ar gyfer Ll8, mae gofyn bod y dysgwyr yn adolygu'r systemau a'r arferion rheoli ansawdd o fewn busnes a ddewiswyd, a allai fod yr un a astudiwyd ar gfyer meini prawf eraill. Bydd yn bwysig i ddysgwyr ddiffinio ansawdd ar gyfer y busnes a astudiwyd, a gallai hynny ddigwydd trwy system sicrhau ansawdd ffurfiol, neu'n seiliedig ar ofynion y farchnad neu safonau cystadleuwyr. Rhaid i'r dysgwyr egluro sut mae'r busnes yn sicrhau ei fod yn cyflawni'r ansawdd sy'n ofynnol trwy ei systemau a'i arferion rheoli. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf adroddiad, poster, cyflwyniad neu daflen.

Ar gyfer Ll9 a Ll10, mae angen i'r dysgwyr gwblhau amrywiaeth o gofnodion ffisegol ac ariannol allweddol sy'n berthnasol i fusnes yn y sector tir. Ar gyfer Ll9, dylai'r dystiolaeth gynnwys o leiaf bedair enghraifft o gofnodion neu ddatganiadau ariannol gwahanol o gynnwys yr uned. Ar gyfer Ll10, mae'n rhaid i'r amrywiaeth o gofnodion gynnwys o leiaf bedwar cofnod ffisegol gwahanol, gan gynnwys enghreifftiau sy'n ofynnol yn gyfreithiol ac at ddibenion rheoli. Mae'r rhain yn debygol o fod yn berthnasol i unedau eraill yn y rhaglen. Gall y dysgwyr o bosib gasglu tystiolaeth o brofiad gwaith, uned

ymarferol y ganolfan neu ymarferiadau efelychu.

Ar gyfer Ll11, rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio data o un cofnod ariannol o leiaf ac o leiaf un cofnod ffisegol i fonitro perfformiad a chynnydd busnes. Bydd hyn yn gofyn bod dysgwyr yn cyflawni cyfrifiadau ac yna'n asesu perfformiad busnes yn erbyn yr amcanion a osodwyd. Gallai hyn fod yn seiliedig ar ddata busnes go iawn neu efelychiad. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf adroddiad llafar neu ysgrifenedig i berchennog y busnes.

Ar gyfer T1, rhaid i'r dysgwyr drafod effaith sefydliadau eraill ar fusnes penodol yn y sector amgylcheddol a thir. Dylai hyn gynnwys o leiaf un enghraifft o bob un o'r canlynol: cyflenwyr nwyddau, cyflenwyr gwasanaethau, sefydliadau cynrychioliadol neu gyrff proffesiynol, cyrff rheoleiddio a chwsmeriaid. Gall y dystiolaeth fod yn estyniad o'r gwaith a gynhyrchwyd ar gyfer Ll1 a Ll2 a dilyn yr un fformat.

Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr drafod sut mae rolau swyddi'n gysylltiedig â strwythur busnes, y defnydd o adnoddau (ffisegol, ariannol a dynol), a pherfformiad mentergarwch busnes tir a ddewiswyd. Dylai'r dystiolaeth ymwneud ag o leiaf dair swydd wahanol mewn busnes a ddewiswyd a thrafod o leiaf ddau lefel o gyfrifoldeb (hy rheoli, goruchwylio, gwaith tîm, hyfforddai), a gellir ei chyflwyno yn yr un fformat ag ar gyfer Ll5.

Ar gyfer T3, rhaid i'r dysgwyr drafod pwysigrwydd bodloni gofynion y farchnad ar gyfer busnes penodol. Dylai hyn gynnwys y blaenoriaethau penodol ar gyfer y math o fusnes a astudiwyd, megis bodloni gofynion deddfwriaethol, boddhad cwsmeriaid, enw da, cwsmeriaid sy'n dychwelyd a'r pris a dderbyniwyd. Gall y dystiolaeth fod yn estyniad o'r dystiolaeth ar gyfer Ll6, Ll7 a Ll8 a dilyn yr un fformat.

Ar gyfer T4, rhaid i'r dysgwyr drafod defnydd a diben cofnodion ffisegol ac ariannol, gan gynnwys unrhyw ofynion cyfreithiol. Dylent hefyd drafod sut gellir eu defnyddio i fonitro perfformiad a chynnydd busnes. Rhaid cyfeirio'n benodol at bob un o'r pedwar cofnod ffisegol a'r pedwar ariannol a gyflwynwyd ar gyfer Ll9 a Ll10 a'r ddau gofnod a gafodd eu monitro ar gyfer Ll11.

Ar gyfer Rh1, rhaid i'r dysgwyr drafod sut mae adnoddau, strwythur busnes a pherthnasoedd gyda sefydliadau eraill yn effeithio ar lwyddiant busnes tir a ddewiswyd. Mae angen i'r dysgwyr gyflwyno tystiolaeth ynghylch sut mae strwythur, adnoddau ffisegol a staffio a pherthnasoedd trefniadaeth y busnes a ddewiswyd yn effeithio ar allbwn, proffidioldeb, boddhad cwsmeriaid neu ddulliau perthnasol eraill o fesur perfformiad busnes. Mae angen hefyd iddynt drafod cryfderau a gwendidau, a gwelliannau posib. Gall y dystiolaeth fod yn estyniad o'r dystiolaeth ar gyfer T1a T2, a dilyn yr un fformat.

Ar gyfer Rh2, rhaid i'r dysgwyr ddadansoddi cofnodion ffisegol ac ariannol i werthuso perfformiad busnes. Dylai'r dystiolaeth gynnwys adroddiad sy'n dadansoddi data o un cofnod ffisegol o leiaf ac un cofnod ariannol, a all fod yn rhai go iawn neu'n efelychiad. Dylai'r cofnod ariannol a ddewisir fod naill ai'n gofnod maint gros, yn gyfrif masnachu, yn llif arian neu'n fantolen. Dylai'r adroddiad nodi cryfderau a gwendidau perfformiad o gymharu â'r amcanion a bennwyd, y data sydd ar gael am y blynyddoedd blaenorol a/neu'r data sydd ar gael am fathau tebyg o fusnesau. Dylai'r adroddiad gynnwys asesiad o sefyllfa gystadleuol y busnes a pha mor dda mae'n bodloni gofynion y farchnad, a chynnwys argymhellion ar gyfer camau gweithredu priodol.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, T1 | Sefydliadau a Busnesau mewn Diwydiant Tir | Mae angen i chi ddarparu brîff i wleidydd sy'n dod yn gyfrifol am y sector tir. Rhaid i hyn ddangos yr ystod o sefydliadau dan sylw, pwysigrwydd un diwydiant, ac effaith sefydliadau ar un busnes tir. | Poster neu ffeithlen |
| Ll3, Ll4, Ll5, T2, Rh1 | Strwythurau ac Adnoddau Busnes | Mae angen i chi gynhyrchu adroddiad ar gyfer buddsoddwr sy'n ystyried prynu busnes tir sydd eisoes yn bodoli. Rhaid i hyn roi darlun cyflawn o strwythur, staffio ac adnoddau ffisegol cyfredol y busnes. Rhaid cynnwys sut mae'r adnoddau, y strwythur a'r perthnasoedd gyda sefydliadau eraill yn effeithio ar lwyddiant, a'ch argymhellion ar gyfer gwella. | Adroddiad ysgrifenedig neu lafar gyda darluniau am ymchwiliad i astudiaeth achos |
| Ll6, Ll7, Ll8, T3 | Marchnadle Busnes | Mae angen i chi gynhyrchu adroddiad arall i'r darpar fuddsoddwr sy'n ymchwilio i farchnadle'r busnes, gan gynnwys maint y farchnad, tueddiadau, cadwyn gyflenwi a safonau ansawdd. Rhaid cynnwys pwysigrwydd bodloni gofynion y farchnad ar gyfer y busnes hwn, a sut mae'n cyflawni'r safonau hynny. | Adroddiad ysgrifenedig |
| Ll9, Ll10, Ll11, T4, Rh2 | Cadw Cofnodion Ariannol a Ffisegol | Rydych chi'n gweithio fel rheolwr mewn busnes tir. Yn y rôl hon bydd angen i chi gwblhau amrywiaeth o gofnodion a'u defnyddio i fonitro a gwerthuso perfformiad y busnes. Rhan o'ch rôl yw hyfforddi grouchwyliwr i gadw cofnodion: egluro sut a pham fod y cofnodion yn cael eu cadw, a sut gallwch eu defnyddio i fonitro perfformiad a chynnydd. | Portffolio o gofnodion wedi'u cwblhau |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflawni Profiad Gwaith yn y Diwydiannau Amgylcheddol a Thir |
| **Lefel 3** |
| Cyflawni Prosiect Ymchwilio yn y Sector Tir |
| Cyflawni ac Adolygu Profiad Gwaith yn y Diwydiannau Tir |

## Adnoddau hanfodol

Mae angen i'r dysgwyr gael mynediad i wybodaeth berthnasol am eu diwydiant. Mae angen hefyd iddynt allu casglu gwybodaeth am fusnes yn eu diwydiant drwy gysylltiadau personol, profiad gwaith neu ymweliadau astudiaeth achos. Mae angen hefyd iddynt gael mynediad at gofnodion ffisegol ac ariannol i'w cwblhau.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i gael cipolwg gwerthfawr ar weithrediad busnesau yn eu sector arbenigol. Mae profiad gwaith yn gyfle delfrydol i ddysgwyr gasglu llawer o'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer yr uned hon.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau


Bovee C a Thill J – *Business in Action with Real Time Updates* (Pearson Education, 2008) ISBN 9780132082693

Dooley D a Dransfield R et al – *BTEC National Business* (Heinemann, 2007) ISBN 9780435465445

Jones R, Raffo C, Anderton A a Hall D – *Business Studies, 4ydd Argraffiad* (Causeway Press, 2008) ISBN 9781405892315

Nix J – *Farm Management Pocketbook 2010 40fed Argraffiad Diwygiedig* (The Anderson Centre, 2009) ISBN 9780954120184

Warren M – *Financial Management for Farmers and Rural Managers* (Blackwell, 1997) ISBN 9780632048717

**Gwefannau**

| | |
|---|---|
| www.beta-uk.org | British Equestrian Trade Association |
| www.bhs.org.uk | British Horse Society |
| www.bized.co.uk | Adnoddau Addysgu Astudiaethau Busnes |
| www.businesslink.gov.uk | Mae Business Link yn wasanaeth cefnogi a chyngor busnes am ddim, ar gael ar-lein a thrwy ymgynghorwyr lleol |
| www.cla.org.uk | Country Land and Business Association |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.foodchaincentre.com | Gweledigaeth The Food Chain Centre yw'r gadwyn fwyd fwyaf effeithlon yn y Deyrnas Unedig wedi'i chefnogi gan y llif mwyaf effeithiol o wybodaeth. |
| www.hmrc.gov.uk | Cyllid a Thollau ei Mawrhydi |
| www.lantra.co.uk | Lantra Sector Skills Council |
| www.netregs.gov.uk | Rheoliadau amgylcheddol |
| www.nfuonline.com | Undeb Amaethwyr Cymru |
| www.the-hta.org.uk | Horticultural Trades Association |
| www.ukagriculture.com | UK Agriculture |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | ymchwilio i ddiwydiant a marchnad busnes tir<br>ymchwilio i adnoddau ffisegol a staffio busnes penodol |
| **Meddylwyr creadigol** | dadansoddi perfformiad busnes o gofnodion |
| **Hunan-reolwyr** | cynnal cofnodion busnes |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Meddylwyr creadigol** | cyflwyno gwybodaeth am eu hastudiaethau achos diwydiant neu fusnes |
| **Dysgwyr myfyriol** | dadansoddi eu perfformiad ar aseiniadau |
| **Gweithwyr tîm** | ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth |
| **Hunan-reolwyr** | cynnal ymchwiliadau a gweithio i gadw at derfynau amser |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | cyfrannu at ymarferion grŵp a thrafodaethau dosbarth |

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **TGCh – Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol, rhyngweithio a defnyddio systemau TGCh yn annibynnol ar gyfer tasgau cymhleth i fodloni anghenion amrywiol | ymchwilio ar y rhyngrwyd am wybodaeth |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | cadw'r holl waith aseiniadau mewn ffolderi a chyda chopïau wrth gefn |
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | ymchwilio am wybodaeth ar gyfer aseiniadau |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i weddu i'r cynnwys a'r diben | paratoi adroddiadau aseiniadau |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n gweddu i'r diben a'r gynulleidfa | cyflwyno adroddiadau aseiniadau |
| **Mathemateg** | |
| Nodi'r sefyllfa neu’r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | dadansoddi data o gofnodion busnes |
| Dethol ystod o sgiliau i ganfod datrysiadau a'u rhoi ar waith | dadansoddi data o gofnodion busnes |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | gwneud argymhellion ar gyfer gwella yn seiliedig ar ddadansoddi data busnes |
| **Iaith** | |
| Ysgrifennu – ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | cyflwyno adroddiadau aseiniadau |